PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2023

YN BRESENNOL:	Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Neville Evans, Aled M. Jones, Dafydd Roberts, Keith Roberts. Aelodau Lleyg: William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson
WRTH LAW:	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Pennaeth Archwilio a Risg Pennaeth Gwasanaeth Oedolion (ar gyfer eitem 7) Prif Archwiliwr (NW) Rheolwr Risg ac Yswiriant (JJ) (ar gyfer eitem 9) Swyddog Gwarchod Data Ysgolion (EW) (ar gyfer eitem 3) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorwyr Dyfed Wyn Jones, Margaret M Roberts, Euryn Morris
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio dros Gyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer), Alan Hughes (Arweinydd Archwilio Perfformiad – Archwilio Cymru), Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Bethan H. Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth), Andrew Lewis (Uwch-archwilydd), Mr Nick McCavish (Rheolwr Rhanbarthol Strategol Galw Gofal)

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i bawb oedd yn bresennol gan groesawu'n arbennig y Cynghorydd Aled M. Jones yn aelod newydd o'r pwyllgor.

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni ddaeth unrhyw ddatganiad o ddiddordeb i law.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd 18 Ionawr, 2023 a chadarnhawyd eu bod yn gywir ar yr amod y diwygid cyfeiriad at "30 Tachwedd, 2021" yn y paragraff yn dilyn y pwynt bwled cyntaf dan eitem 3 i ddarllen "30 Tachwedd, 2022."

Mewn ymateb i gais gan y Cadeirydd am y sefyllfa gyfredol ynghylch y cyfrifon, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod cyfrifon yr Awdurdod wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol gan Archwilio Cymru 31 Ionawr, 2023 ac na chafwyd unrhyw newidiadau o bwys i'r cyfrifon nac i adroddiad ISA 260.

3 ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWODRAETHU GWYBODAETH MEWN YSGOLION 2021/22

Cyflwynwyd, i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn nodi'r materion llywodraethu gwybodaeth allweddol mewn ysgolion am y cyfnod Tachwedd, 2021 i Ionawr, 2023 ynghyd â'r blaenoriaethau cyfredol. Cyflwynai'r adroddiad ddatganiad a throsolwg y Swyddog o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Ynys Môn a'u cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol wrth ymdrin â gwybodaeth yn ystod y cyfnod, gan gynnwys cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 ac â chodau ymarfer perthnasol.

Wrth gyflwyno ei dadansoddiad o'r sefyllfa, cadarnhaodd y Swyddog fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf ym mis Tachwedd, 2021 o ran sicrhau bod ysgolion wedi rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol yn eu lle er mwyn cydymffurfio â gofynion dan ddeddfwriaeth diogelu data. Roedd arferion rheoli gwybodaeth beunyddiol yr ysgolion wedi parhau i wella ac roedd ysgolion bellach yn dangos eu bod yn deall eu cyfrifoldebau a'u goblygiadau fel rheolydd data a'r disgwyliadau cyfreithiol a ddeuai yn sgil hynny. Roedd y rhan fwyaf o staff ysgolion wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bu hyn yn gymorth i ysgolion wella eu harferion. At hyn, roedd ugain o gyrff llywodraethu ysgolion hefyd wedi cael cyflwyniad diogelu data. Roedd ysgolion wedi mabwysiadu'r mwyafrif o'r polisïau'n ffurfiol ac yn y broses o fabwysiadu'r pecyn polisïau terfynol a ddylai sicrhau eu bod yn gallu mynd i'r afael â gofynion atebolrwydd y GDPR. Er ei bod yn seiliedig ar ei hasesiad, roedd y Swyddog wedi gallu rhoi barn sicrwydd rhesymol bod yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion diogelu data. Roedd angen gwneud rhagor o waith, fel y manylir yn yr adroddiad, yn benodol mewn perthynas â rheoli'r risgiau diogelu data a ddeilliai o ddefnyddio systemau gwahanol ac adolygu trefniadau gyda phroseswyr data gan gynnwys sicrhau bod cytundebau gan ddarparwyr yn bodloni gofynion.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad gan nodi ei fod yn gynhwysfawr a llawn gwybodaeth a chodwyd y materion a ganlyn yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- Y byddai cynnwys rhestr acronymau/termau mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol o gymorth mawr

- Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith pellach a nodwyd, a ph'run a oedd holl ysgolion yr Ynys bellach wedi'u hasesu ac wedi cofrestru i gael cymorth ac arweiniad trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth.

- Cadarnhaodd y Swyddog fod y 45 o ysgolion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yn cynnwys holl ysgolion cynradd ac uwchradd Ynys Môn, ynghyd â Chanolfan Addysg y Bont ac eithrio Ysgol Sefydledig Caergeiliog. Dywedodd fod yr atodlen yn Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion Ynys Môn yn Atodiad B yn nodi'r dyddiadau cwblhau targed ar gyfer y gweithgareddau a amlinellwyd a'r nod oedd cwblhau'r holl brif elfennau erbyn diwedd y flwyddyn ysgol gyfredol.

- Yr hyn yr oedd y gwaith pellach gydag ysgolion yn ei olygu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau a gofynion diogelu data.

- Dywedodd y Swyddog mai rhan o'i rôl oedd cynnal archwiliad diogelu data blynyddol o bob un o'r 45 ysgol unigol i adolygu a gydymffurfir â threfniadau diogelu data, gyda dau archwiliad o'r fath o'r holl ysgolion wedi'u cwblhau hyd yma. Ar gyfer ymweliad archwilio 2023, byddai'n canolbwyntio ar sicrhau bod gan bob ysgol Gofnod o Weithgareddau Prosesu (RoPA) cywir a chyfredol; eu bod yn monitro'u cydymffurfiaeth

â'r holl bolisïau diogelu data ac yn gallu tystio i hyn; bod ganddynt gytundebau diogelu data priodol yn eu lle gyda phroseswyr data h.y. y cwmnïau hynny yr oeddynt yn caffael systemau, rhaglenni ac apiau ganddynt a bod asesiadau o Effaith y Diogelu Data wedi'u cwblhau yng nghyswllt meysydd prosesu data risg uchel, megis camerâu teledu cylch cyfyng.

- Darparu hyfforddiant, yn benodol nifer y staff ysgol oedd wedi cael yr hyfforddiant diogelu data angenrheidiol a ph'run a oedd unrhyw ysgolion nad oeddynt wedi cael hyfforddiant hyd yma.

- Cadarnhaodd y Swyddog fod y mwyafrif o'r ysgolion bellach wedi cael hyfforddiant diogelu data gyda'r rhan fwyaf wedi'u cynnal ar-lein, gyda'r ysgolion eu hunain yn cadw cofnod o'r rhai a ddaeth i bob sesiwn. Gan fod y trefniadau wedi eu gwneud naill ai ar sail dalgylch neu ysgol unigol, ni allai ddweud faint o staff oedd wedi bod am hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd hi'n ymwybodol nad oedd rhai ysgolion wedi derbyn y sesiwn sylfaenol ac y byddai'n dilyn hyn i fyny i sicrhau bod yr holl ysgolion eraill yn cael hyfforddiant ar yr holl elfennau diogelu data allweddol.

- Rôl Cwmni CELyn. Eglurodd y Swyddog mai cwmni annibynnol o Gaernarfon oedd hwn a roddai gyngor arbenigol ar lywodraethu gwybodaeth a diogelu data i'r cyngor hwn ac i gynghorau eraill.

- P'run a oedd gan ysgolion yr ymreolaeth i gaffael pecynnau meddalwedd yn unol â'u hanghenion a ph'run a oedd unrhyw fesurau a/neu asesiad yn yr achos hwnnw i sicrhau bod meddalwedd o'r fath yn briodol ac yn cydymffurfio â GDPR a'r Ddeddf Diogelu Data.

- Dywedodd y Swyddog ei bod wedi cwblhau asesiadau manwl o Gytundebau Prosesu Data ar gyfer y systemau, y rhaglenni a'r apiau yr oedd y mwyafrif o ysgolion yn eu defnyddio er mwyn cyflwyno asesiad risg cyffredinol i ysgolion ynghylch y cytundebau presennol yr oedd ganddynt. Fel arfer, pe bai ysgol yn dymuno cofrestru gyda'r ap, byddai'r Swyddog yn asesu'r cytundeb gyda'r darparwr yn y lle cyntaf i sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl gydrannau diogelu data gofynnol. Mewn ymateb i ymholiad pellach, cadarnhaodd y byddai'n rhaid ymgynghori â'r Gwasanaeth TG cyn y gall ysgolion uwchlwytho/osod unrhyw raglen neu system er bod gan ysgolion annibyniaeth fel rheolydd data oherwydd eu bod wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith HWB.

Penderfynwyd –

- **Derbyn adroddiad a datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion.**
- **Cymeradwyo camau nesaf arfaethedig y Swyddog Diogelu Data Ysgolion – Cynllun Diogelu Data Ysgolion fel bod modd i ysgolion weithredu'n llawn yn unol â gofynion diogelu data.**

Dim angen gweithredu pellach

4 DATGANIAD O'R STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2023/24

Cyflwynwyd, i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24. Cyflwynwyd yr adroddiad i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arfer gorau yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys ac roedd yn cynnwys y Strategaeth Buddsoddi Flynyddol, y Datganiad Polisi Taliad Refeniw Sylfaenol (MRP)

blynyddol, y Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys blynyddol a Chynllun Dirprwyo Rheoli'r Trysorlys.

Roedd y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn nodi strategaeth a dull gweithredu'r Cyngor o ran benthyca a buddsoddi. Roedd y cyfyngiadau ar fenthyca, hefyd, yn pennu set o ddangosyddion darbodus ac yn pennu awydd risg a strategaeth y Cyngor o ran buddsoddiadau. Roedd yn ymestyn dros y ddau brif faes a ganlyn –

- Materion cyfalaf gan gynnwys cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a dangosyddion darbodus ynghyd â'r Datganiad ar Gyflwyno Polisi Refeniw Sylfaenol (MRP) a,
- Materion rheoli'r trysorlys gan gynnwys sefyllfa bresennol y Cyngor o ran trysorlys, y rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog, Strategaethau Benthyca a Buddsoddi'r Cyngor; y Polisi ar Fenthyca Ymlaen Llaw; Aildrefnu Dyledion, y Polisi Teilyngdod i gael Credyd a'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli prosesau, penderfyniadau a pherfformiad gwaith rheoli'r trysorlys.

Yn yr adroddiad, hefyd, roedd sylwadau ar y cefndir economaidd ehangach a'r rhagolygon a sut yr oedd y rhain yn dylanwadu ar benderfyniadau rheoli'r trysorlys.

Wrth roi trosolwg o'r adroddiad, tynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 sylw at yr isod –

- Y câi unrhyw arian dros ben oedd gan y Cyngor ar hyn o bryd ei fuddsoddi mewn cyfrifon adnau tymor byr, cyfrifon adnau cyffredinol a chydag awdurdodau lleol eraill yn y DU. Hyd at 31 Rhagfyr, 2022 y balans a fuddsoddwyd yn y cyfrifon hyn oedd £46.2m. Rhagwelwyd y byddai'r balans hwn yn gostwng i tua £38m ac na fyddid yn ailfuddsoddi buddsoddiad yr oedd disgwyl iddo aeddfedu ym mis Chwefror 2023 ond, yn hytrach, byddai'n mynd yn ôl i Gronfa'r Cyngor i'w defnyddio i ategu gofynion llif arian a chyllido gwariant cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a sut i'w hariannu (Tabl 3 yr adroddiad). £26.118m sydd angen ei fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf am 2023/24.
- Effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r tâl MRP ar lefel y benthyca allanol a mewnol fel y'i nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad.
- Newid i'r Polisi Cyflwyno Refeniw Sylfaenol. Yn 2018, adolygodd y Cyngor ei bolisi MRP a mabwysiadodd y dull Rhandaliad Cyfartal o Oes Ased i gyfrifo ei dâl MRP ar gyfer benthyca â chymorth a benthyca heb gymorth. O 1 Ebrill, 2022, roedd y polisi diwygiedig yn mabwysiadu dull blwydd-dal gan ddilyn dull tebyg i forgais ad-dalu safonol, lle'r oedd swm ad-dalu cyfun y prifswm a ad-delid a'r llog yn aros yn gyson ac, yn sgil hynny, roedd swm y prifswm a ad-delid yn y blynyddoedd cynnar yn isel ac yn cynyddu dros amser. Dan y dull blwydd-dal, felly, roedd y tâl MRP yn isel yn y blynyddoedd cychwynnol ac yn cynyddu dros amser. Er bod y swm gwirioneddol a godid yn aros yr un fath gyda'r ddau ddull, pan fyddai gwerth taliadau yn y dyfodol yn gostwng yn ôl i brisiau cyfredol, byddai'r dull Blwydd-dal yn rhoi Gwerth Presennol Net positif o'i gymharu â'r dull Rhandaliad Cyfartal o Oes Ased. Y gred oedd bod hwn yn ddull mwy darbodus.
- Yr angen i fabwysiadu strategaeth buddsoddi ystwyth am 2023/24 er mwyn sicrhau'r enillion gorau posibl. Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai rhywbeth yn y tymor byr fyddai adneuon newydd pe bai Cyfradd y Banc yn parhau i godi. I'r gwrthwyneb, pe bai'r gyfradd yn gostwng, byddid yn ystyried cloi cyfraddau uwch oedd ar gael am gyfnod hwy. Fodd bynnag, roedd buddsoddi arian dros ben y Cyngor yn golygu nad oedd yr arian ar gael at ddibenion beunyddiol nac i ariannu gwariant cyfalaf, felly, roedd yn rhaid i'r Cyngor fenthyca. Yr her oedd cynnal cydbwysedd rhwng cael y gorau o fuddsoddiadau wrth, hefyd, osgoi benthyca ar gyfradd uchel. Y strategaeth, felly, oedd buddsoddi yn y tymor hwy wrth, hefyd, fenthyca dros dymor byr.

- Bod blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yn parhau i fod yn sicrwydd yn gyntaf, hylifedd portffolio yn ail ac yna elw (enillion) er y byddid yn fwy cynnil gyda hylifedd ac elw. Byddid yn asesu'n ofalus y gwerth i'w gael o fuddsoddi yn y tymor hwy lle gellid nodi symiau arian parod y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hwy.

Mewn ymateb i bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad, eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yr isod –

- Y câi unrhyw fân newidiadau/cywiriadau eu gwneud i'r Datganiad Strategaeth cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn.
- Er y câi'r gyllideb gyfalaf ei gosod mewn modd a ddangosai sut y câi elfennau ohoni eu hariannu, boed hynny drwy grantiau, derbyniadau, arian wrth gefn a/neu fenthyca, byddid yn benthyca o ddydd i ddydd i gwrdd â gofynion llif arian y Cyngor ac i ailgyflenwi balansau arian parod ond nid oedd yn benodol gysylltiedig ag unrhyw eitem benodol o wariant cyfalaf.
- Bod Grŵp Cyswllt wedi bod yn gweithredu fel Ymgynghorwyr Trysorlys y Cyngor ers nifer o flynyddoedd ac wedi bod yn llwyddiannus pan roddwyd y contract i dendr ddiwethaf yn 2018/19.
- Bod benthyca yn cynyddu oherwydd bod y Cyngor wedi cyrraedd terfynau benthyca mewnol sy'n golygu bod yn rhaid ariannu gwariant cyfalaf parhaus o fenthyciadau allanol. Y Cyfrif Refeniw Tai oedd yn cynhyrchu'r swm mwyaf o angen benthyca, a hynny er mwyn bodloni'r blaenoriaethau datblygu tai a nodir yng Nghynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai. Er bod cronfeydd wrth gefn y cyfrif hwn wedi'u defnyddio i ariannu'r gwariant hwn, gan fod y rhain yn cael eu rhedeg i lawr i lefel sy'n briodol ym marn y Cyngor, rhaid oedd i unrhyw wariant cyfalaf newydd gael ei ariannu gan fenthyciadau allanol. O ran ad-daliadau, ni châi prifswm y benthyciad ei dalu'n ôl yn flynyddol yn yr un modd â morgais ond câi ei ad-dalu pan ddeuai cyfnod y benthyciad i ben. Rhoddai Atodiad 5 yr adroddiad ddadansoddiad o aeddfedrwydd benthyciadau o 2023/24 ymlaen. Fodd bynnag, fel rhan o unrhyw benderfyniad ar fenthyca yn y dyfodol, byddai'r Cyngor yn ceisio sicrhau y câi'r dyddiad ad-dalu ei drefnu er mwyn gwneud ad-daliadau mor ddidrafferth ag y bo modd.
- O ran y gostyngiad mewn gwariant cyfalaf nad yw'n Gyfrif Refeniw Tai/Cronfa Gyffredinol dros y tair blynedd nesaf, câi hwn ei ariannu yn rhan o'r setliad blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn cynnwys y Grant Cyfalaf Cyffredinol y gellid ei wario yn ôl dymuniad y Cyngor a benthyca â chymorth, lle câi costau refeniw benthyca eu hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad refeniw blynyddol. Er bod y ffrydiau ariannu hyn wedi aros ar yr un lefel, fwy neu lai, ers nifer o flynyddoedd ac nad oedd disgwyl iddynt gynyddu fawr yn y dyfodol, roedd Llywodraeth Cymru'n defnyddio cyllid grant yn gynyddol i ysgogi prosiectau mewn meysydd lle'r oedd yn dymuno gweld gwelliannau a/neu newid e.e. moderneiddio ysgolion. Roedd y dyraniad cyfalaf ar gyfer 2023/24, felly, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yr oedd y Cyngor yn gwybod y byddai'n dod, tra byddai'r dyraniad am y ddwy flynedd nesaf yn cynnwys y cyllid craidd yn unig. Fodd bynnag, pan gâi'r Strategaeth ei hadolygu'r flwyddyn nesaf, roedd yn debygol y byddai rhagor o gyllid grant cyfalaf wedi'i ryddhau gan Lywodraeth Cymru, a olygai y gellid adolygu'r ffigurau ar gyfer 2024/25 a 2025/26 ac ymlaen. Y disgwyl, hefyd, oedd y byddai amodau sero net ynghlwm wrth swm cynyddol o gyllid grant Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod. Yn ogystal, roedd maint rhaglen gyfalaf y Cyngor yn lleihau oherwydd bod y cyllid, bellach, yn prynu llai. O gofio bod y cyllid cyfalaf craidd, ar hyn o bryd, bron yn ddigon i dalu am gynnal a chadw asedau presennol y Cyngor, roedd y Cyngor yn dibynnu ar arian grant i ategu unrhyw wariant cyfalaf ychwanegol.

Penderfynwyd derbyn a nodi Datganiad y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24 ac anfon yr adroddiad ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb ragor o sylwadau.

Dim angen gweithredu pellach

5 ADOLYGU CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori cylch gorchwyl presennol y Pwyllgor. Awgrymai arfer da y dylai pwyllgorau adolygu eu cylch gorchwyl o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn briodol. Ym mis Ebrill, 2022 y cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gylch gorchwyl cwbl ddiwygiedig ddiwethaf, yn dilyn newidiadau a wnaed o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg, nad oedd canllawiau sector-benodol a gyhoeddid gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ac a ddiweddarwyd ym mis Rhagfyr 2022, yn cynnwys unrhyw newidiadau oedd yn cael effaith ar gylch gorchwyl y Pwyllgor ac, felly, nid oedd angen eu newid.

Penderfynwyd cymeradwyo cylch gorchwyl presennol y Pwyllgor.

Dim angen gweithredu pellach

6 ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori Blaen Raglen Waith ac Amserlen Hyfforddiant y Pwyllgor.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod gwaith adolygu'r Fframwaith Rheoli Risg wedi'i ohirio tan gyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill, 2023 gan bod disgwyl rhoi ail fersiwn newydd o'r feddalwedd Rheoli Risg ar waith.

Penderfynwyd derbyn bod y Blaen Raglen Waith ar gyfer 2022/23, gyda'r newid a amlinellwyd, yn cwrdd â chyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

Dim angen gweithredu pellach.

7 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf, hyd at 31 Ionawr, 2023, am yr archwiliadau a gwblhawyd ers cyflwyno'r sefyllfa flaenorol i'r Pwyllgor 30 Tachwedd, 2022. Nodai'r adroddiad, hefyd, lwyth gwaith presennol Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig wrth symud ymlaen. Rhoddwyd copïau i aelodau'r Pwyllgor o'r pedwar darn o waith sicrwydd a gwblhawyd yn y cyfnod mewn perthynas â Chronfa Adnewyddu Gymunedol y DU (Archwiliad Grant) (Sicrwydd Rhesymol); Rheoli Gwendid TG (Dilyniant Cyntaf) (Sicrwydd Rhesymol), Gwall Debyd Uniongyrchol Treth y Cyngor (barn sicrwydd yn amherthnasol) a Galw Gofal (Trefniadau Llywodraethu Partneriaethau) (Sicrwydd Cyfyngedig) ar wahân.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg drosolwg o'r adroddiad gan gynnwys crynodeb o ganlyniad y gwaith a gwblhawyd a'r meysydd gwaith oedd ar y gweill ar hyn o bryd, fel y gwelid yn y tabl ym mharagraff 23 yr adroddiad. Cyfeiriodd at yr heriau recriwtio yr oedd y Gwasanaeth yn eu profi wrth geisio llenwi dwy swydd wag ar lefel Uwch-archwiliwr a chadarnhaodd fod y gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r Strategaeth Archwilio Mewnol Flynyddol ar gyfer 2022/23 fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor. Câi blaenoriaeth ei rhoi i adolygu'r risgiau gweddilliol coch ac oren nad oeddynt wedi'u hadolygu eto neu nad

oeddynt wedi'u hadolygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd tair risg strategol yn parhau i fod angen eu hadolygu cyn diwedd y flwyddyn.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y materion a ganlyn –

- Gwaith archwilio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a ysgogwyd gan bryderon a godwyd yn ystod gwaith archwilio Pensiynau Athrawon. Gofynnwyd am ragor o sicrwydd bod y mater ynghylch bylchau yng ngwasanaeth pensiynadwy athrawon wedi'i ddatrys a bod gwallau wedi'u cywiro.

- Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod Archwilio Mewnol wedi cynnal archwiliad o Bensiynau Athrawon y llynedd oedd yn edrych ar yr hyn a achosodd y broblem gyda gweinyddu pensiynau athrawon a ph'run a oedd y trefniadau i dalu cyfraniadau pensiwn yn gywir a rhoi cyfrif am wybodaeth gwasanaeth pensiynadwy athrawon i'r Gwasanaeth Pensiynau Athrawon, yn effeithiol. Ymgorfforwyd y materion/risgiau a godwyd gan yr archwiliad mewn Cynllun Gweithredu a'r disgwyl oedd y byddai Archwilio Mewnol yn dilyn hynt y cynnydd hwn.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nad mater oedd yn gyfyngedig i Ynys Môn yn unig oedd hwn ac y bu adrodd ar broblemau eang o ran anghywirdebau/bylchau yng nghofnodion gwasanaeth athrawon. Eglurodd y trefniant ar gyfer cyflwyno gwybodaeth i'r Gwasanaeth Pensiwn Athrawon (y Gwasanaeth Pensiwn) oedd yn ymwneud â pharatoi dwy ffeil ddata, y naill mewn perthynas â'r cofnod gwasanaeth misol a'r llall mewn perthynas â chyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr. Er bod y Gwasanaeth Pensiwn yn dilysu'r wybodaeth yr oedd yn ei chael, cododd problemau wrth adrodd am anghysonderau a olygai na weithredwyd ar gamgymeriadau. Ers hynny, cafwyd adnodd ychwanegol i ymdrin ag ymholiadau a chofnodion pensiwn. Roedd y Gwasanaeth Pensiwn yn gweithredu proses casglu data newydd lle câi'r wybodaeth yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor ei chyflwyno ei chyfuno mewn un ffeil. Fodd bynnag, roedd materion yn ymwneud ag uwchraddio system y Cyngor wedi golygu oedi o sawl mis cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Gwasanaeth Pensiwn. Roedd y Cyngor wedi dychwelyd i'r system flaenorol ac roedd, bellach, yn y broses o ddal i fyny. Unwaith y byddai'r problemau meddalwedd wedi'u datrys yn llwyddiannus, y gobaith oedd y gellid diweddaru cofnodion ac ymdrin ag unrhyw fylchau. Dylid nodi bod yr holl gyfraniadau a dynnwyd o gyflog athrawon wedi'u talu i'r cynllun pensiwn a bod datganiad blynyddol o wybodaeth a datganiad o gyfraniadau pensiwn wedi'i gyflwyno ac y byddai'n cael ei wirio gan archwilwyr allanol.

  Mewn ymateb i gwestiynau, eglurodd y Swyddog Adran 151 y byddai Cyngor Môn yn rhoi cymorth lle gallai er bod Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am gofnodion cyflogres yn dyddio'n ôl i cyn 1996. Roedd y Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun heb ei ariannu ac a weinyddid gan yr Adran Addysg. Llywodraeth y DU oedd yn gyfrifol am y cynllun. Yn wahanol i'r Cynllun Pensiwn Athrawon, roedd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun a ariennid gyda'r Cyngor a gweithwyr yn gwneud cyfraniadau i gronfa a gyfrifid ar lefel lle mai'r bwriad oedd cydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn ag asedau buddsoddi. Yn y gorffennol, roedd rhwymedigaethau'r gronfa'n uwch na gwerth ei hasedau, a olygai bod y Cyngor yn cyfrannu cyllid ychwanegol i dalu am ddiffyg oedd gan y gronfa yn y gorffennol, yn ogystal ag am gostau gwasanaethau yn y dyfodol. Roedd y prisiad a ddeuai i rym o Ebrill 2023 yn dangos cynnydd bychan yng nghyfraniadau'r cyflogwr i dalu costau gwasanaeth yn y dyfodol gan fod rhan Ynys Môn o'r gronfa bellach wedi'i hariannu 110%, gyda gwerth yr asedau yn fwy na'r rhwymedigaethau. Roedd y Cyngor yn atebol am ei gyfran o o Gronfa Bensiwn Gwynedd ond nid oedd y rhwymedigaeth honno'n debygol o fod yn bendant gan fod y gronfa'n barhaus a bod addasiadau i gyfraniadau'r cyflogwr yn rheoli lefel y tangyllido neu'r gorgyllido.

- Sefyllfa staffio o fewn Archwilio Mewnol ac effaith bosib y ddwy swydd wag ar ddarparu sicrwydd y Gwasanaeth. Holwyd am y camau y gellid eu cymryd i oresgyn yr heriau recriwtio cyfredol.

  Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai'n defnyddio'r arbedion cyllidebol i gomisiynu cymorth allanol ychwanegol mewn meysydd cymhleth, gan gynnwys archwiliad technegol o TG gan dîm Archwilio Cyngor Salford, er mai'r Gwasanaeth fyddai, unwaith eto, yn rhedeg y broses recriwtio ar gyfer y ddwy swydd wag yn yr adain. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y cynnydd a wnaed ar gyflawni'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23 yn golygu y byddai mewn sefyllfa i roi barn archwilio flynyddol.

- Gwall Debyd Uniongyrchol Treth y Cyngor. Er bod y Pwyllgor yn derbyn bod camau wedi'u cymryd a gwelliannau wedi'u gwneud i sicrhau na fyddai'r gwall yn cael ei ailadrodd, gofynnwyd am sicrwydd bod gan y Cyngor brosesau priodol ar waith i atal ei gyfrifon rhag cael eu gwagio a'r arian ei drosglwyddo i'r buddiolwr ac /neu i'r cyrchfan anghywir.

  Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y prosesau oedd ar waith ar gyfer casglu debyd uniongyrchol ac ar gyfer gwneud taliadau gan gynnwys y sieciau oedd ar gyfer pob trafodyn. Fel y cadarnhawyd gan adolygiad yr Archwiliwyr Mewnol, roedd gwall debyd uniongyrchol Treth y Cyngor yn ganlyniad i gamgymeriad dynol yn sgil amgylchiadau unigryw dros gyfnod gŵyl banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, lle proseswyd ymlaen llaw y ffeiliau debyd uniongyrchol ar gyfer tri dyddiad talu, gan achosi dryswch a gwall debyd uniongyrchol. Yn sgil y digwyddiad, roedd y Gwasanaeth yn rhoi ar waith broses awdurdodi gadarnach fel bod swyddog annibynnol yn gwirio holl ffeiliau debyd uniongyrchol Treth y Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol cyn eu rhyddhau, gyda dogfennau'n ategu'r holl wiriadau. Amlinellodd y Swyddog, hefyd, y camau cyflym a gymerwyd i unioni'r sefyllfa fel y'i cadarnhawyd gan adolygiad yr Archwiliwyr Mewnol a'r hyn yr oedd hynny wedi'i olygu. Dywedodd y Swyddog ei fod yn hyderus bod gan y Cyngor brosesau priodol ar waith i atal ei gyfrifon rhag cael eu gwagio ac arian ei drosglwyddo i gyrchfan nad oedd caniatâd iddo.

- Adolygiad Cyfyngedig Archwilio Mewnol o Galw Gofal (Trefniadau Llywodraethu Partneriaethau). *(Trafodwyd yr adroddiad hwn ar ddiwedd y cyfarfod mewn sesiwn gaëedig oherwydd y penderfynwyd dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r drafodaeth ar yr adroddiad ar y sail ei fod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 Atodlen 12A y Ddeddf honno).*

  Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg yr argymhellwyd ystyried y mater mewn sesiwn breifat gan fod yr adolygiad yn cyfeirio at faterion busnes y Cyngor a allai niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, yn ariannol ac yn gyfreithiol. Yn ogystal, roedd Galw Gofal yn darparu gwasanaethau i sefydliadau eraill oedd yn codi materion o sensitifrwydd masnachol. Cyfeiriodd at gwmpas yr adolygiad oedd yn archwilio p'run a oedd trefniadau llywodraethu partneriaeth Galw Gofal yn addas i'r diben i sicrhau bod llywodraethu, perfformiad a sefydlogrwydd ariannol yn ddigonol, ac at ganlyniad yr adolygiad mewn barn Sicrwydd Cyfyngedig. Cododd yr adolygiad archwilio bum mater/risg sydd wedi'u hymgorffori mewn Cynllun Gweithredu ac y cytunodd y Bwrdd Partneriaeth arnynt. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw bryderon am y gwasanaeth a roddwyd i unigolion nac am y defnydd a wnâi Gwasanaeth Tai Cyngor Sir Ynys Môn o Galw Gofal fel canolfan alwadau y tu allan i oriau, ond bod materion yn ymwneud â

chydymffurfio â GDPR a nifer o wendidau rheoli llywodraethu mewn cysylltiad â rhwymedigaethau diogelu data wedi'u nodi.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Mr Nick McCavish, Rheolwr Strategol Rhanbarthol Galw Gofal, sicrwydd bod y materion a godwyd yn yr archwiliad yn cael sylw ac amlinellwyd y camau a gymerwyd i gyflymu'r broses honno. Dywedodd y Rheolwr Strategol Rhanbarthol y câi'r materion hynny eu blaenoriaethu ac er mai'r disgwyl oedd y byddai'r rhan fwyaf o'r materion/risgiau a godwyd yn cael sylw yn yr amserlen, efallai y byddai'n cymryd mwy o amser i werthuso agweddau gwerth am arian y bartneriaeth gan y byddai'n dymuno i'r ymrwymiad hwnnw gael ei gynnal yn drylwyr ac yn gynhwysfawr. Ychwanegodd nad oedd yr adolygiad wedi canfod unrhyw achosion o dorri rheolau diogelu data ac mai cadernid y trefniadau a'r rheolaethau diogelu data oedd y prif faterion a godwyd.

Wrth ystyried yr adroddiad ar adolygiad archwilio mewnol, roedd y Pwyllgor o'r farn ei fod wedi codi cwestiynau pwysig am waith llywodraethu partneriaethau'n gyffredinol ac roedd yn cyd-fynd â'r sylw a wnaed yn yr adolygiad bod y canlyniad yn ysgogi angen i ystyried ac adolygu trefniadau llywodraethu a diogelu data'r partneriaethau eraill yr oedd y Cyngor yn rhan ohonynt, yn unol â lefel eu risg. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai fod yn rhoi amser i adolygu effeithiolrwydd gwaith llywodraethu partneriaethau yn rhan o'i gynllun gwaith. Tynnodd y Pwyllgor sylw, hefyd, at y ffaith nad oedd eglurder ynghylch llinellau cyfrifoldeb ym Mhartneriaeth Galw Gofal ac roedd o'r farn bod angen rhoi sylw iddo yn rhan o waith sicrhau llywodraethu da.

Cadarnhaodd y Rheolwr Strategol Rhanbarthol y byddai cytundeb Adran 101 yn nodi cyfrifoldebau pob sefydliad yn y bartneriaeth.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad cyfredol a nodi darpariaeth sicrwydd a blaenoriaethau Archwilio Mewnol wrth fynd ymlaen.

Dim angen gweithredu pellach

8 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Rhoddwyd ystyriaeth i wahardd y wasg a'r cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac er budd y cyhoedd, fel y'i cyflwynwyd.

Holwyd a oedd angen eithrio trafod y Gofrestr Risg Strategol yn ei chyfanrwydd mewn sesiwn agored ar y sail y tybiwyd bod elfennau o'r Gofrestr o ddiddordeb i'r cyhoedd.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yn y Gofrestr Risg Strategol wybodaeth am faterion busnes y Cyngor a allai niweidio'r Cyngor yn fasnachol, yn ariannol ac yn gyfreithiol ac, felly, argymhellwyd trafod y mater yn breifat.

Er derbyn yr eglurhad ar gyfer y cyfarfod hwn, cytunwyd, wedi hynny, y dylid cyfeirio'r cwestiwn ynghylch trafod y Gofrestr Risg Strategol o hyn ymlaen mewn sesiwn agored neu breifat neu mewn cyfuniad o'r ddwy, at y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro I gael rhagor o arweiniad ac eglurhad.

Penderfynwyd dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn ar y sail ei fod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 ac 16 Atodlen 12A y cyfryw Ddeddf ac yn y Prawf Er Lles y Cyhoedd a gyflwynwyd.

Camau pellach – bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn ceisio cyngor y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro ar statws preifat a/neu gyhoeddus y Gofrestr Risg Strategol.

9 Y GOFRESTR RISG STRATEGOL

Cyflwynwyd, i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori'r Gofrestr Risgiau Strategol. Cyflwynai'r adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am y diwygiadau i'r Gofrestr Risgiau Strategol ers iddi gael ei chyflwyno ddiwethaf i'r Pwyllgor ym mis Medi, 2022.

Dywedodd y Rheolwr Yswiriant a Risg fod pob un ond dwy o'r tair risg ar ddeg oedd ar y gofrestr risg strategol ar hyn o bryd yn cyd-fynd yn uniongyrchol â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Roedd y ddwy risg nad oeddynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r blaenoriaethau corfforaethol – YM1 (cysylltiedig â chyllid) ac YM4 (yn ymwneud â seiber) wedi'u cynnwys oherwydd y cânt eu hystyried yn sylfaenol i allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau oedd yn sail i'r blaenoriaethau corfforaethol. Ac eithrio YM12 (diogelu corfforaethol), roedd pob un o'r risgiau wedi eu hadolygu o leiaf unwaith ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor hwn; nid oedd unrhyw risgiau newydd wedi'u nodi yn y cyfnod hwnnw. Ers cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Medi, 2022, roedd y newidiadau a ganlyn wedi'u gwneud -

- Wedi iddi gael ei hadolygu ym mis Ionawr, 2023, caewyd risg YM6 (yn ymwneud â Covid) ar y sail bod y pwysau a ddaeth yn sgil y pandemig Covid bellach wedi cilio ac yn cael eu cynnwys gan risg YM7 (newidiadau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor). Felly, roedd Covid yn dal i gael ei gynnwys yn y Gofrestr Risgiau Strategol ond nid fel risg yn ei rhinwedd ei hun.
- Wedi iddi gael ei hadolygu ym mis Hydref, 2022, cafodd sgôr risg weddilliol risg YM1 (yn ymwneud â chyllid) ei huwchraddio i adlewyrchu'r ansicrwydd yn economi a marchnadoedd ariannol y DU ar y pryd.
- Wedi iddo gael ei adolygu ym Medi, 2022, diwygiwyd disgrifiad risg risg YM5 (Prosiect Moderneiddio Ysgolion) i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yn gywirach gan nad oedd mwyach brosiect moderneiddio ysgolion a'i fod, bellach, yn cyfeirio at addasrwydd ysgolion yr Ynys o ran eu gallu i gwrdd â heriau addysgol yn y dyfodol a chynnal safonau.

Câi'r Gofrestr Risgiau Strategol ei hadolygu yn ei chyfanrwydd unwaith y byddai'r Cyngor yn mabwysiadu ei flaenoriaethau strategol/Cynllun Corfforaethol newydd. Cadarnhawyd bod disgwyl i gynllun newydd y Cyngor gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn iddo ef ei gymeradwyo ym mis Mawrth, 2023.

Penderfynwyd nodi'r diwygiadau a wnaed i'r Gofrestr Risgiau Strategol a derbyn sicrwydd bod y Tîm Arweiniol wedi cydnabod y risgiau wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a'i fod yn eu rheoli.

Mr Dilwyn Evans
Cadeirydd